



**Priodoldeb i Ymarfer**

**Gwybodaeth i arsylwyr**

## Gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer heddiw

Gwrandawriad cyhoeddus yw hwn, yn unol â'r *Ddeddf Hawliau Dynol* – mae hyn yn sicrhau bod pob person yn cael gwrandawriad teg yn yr ystyr y caiff unrhyw un ei fynychu a'i arsylwi. Fodd bynnag, gall yr athro ysgol a'r awdurdod lleol (a ddisgrifir fel 'y Corff Priodol' at ddibenion Sefydlu) ofyn i'r Pwyllgor wrando ar rai rhannau o'r gwrandawriad neu'r gwrandawriad cyfan yn breifat os oes rhesymau da iawn. Nid oes rhaid i'r Pwyllgor gytuno i hyn.

### Cyrraedd y gwrandawriad ac ymadael

- **Bydd gwrandawriadau'n dechrau fel arfer am 10:00yb.** Dylech geisio cyrraedd erbyn **9:30yb** fan bellaf. Bydd Swyddog y Cyngor naill ai'n eich tywys i ystafell aros ac o'r fan hon y cewch eich casglu cyn bod y gwrandawriad yn dechrau, neu bydd yn eich tywys yn uniongyrchol i ystafell y gwrandawriad. Nid oes rhaid i chi aros am y gwrandawriad cyfan.

**Os bydd angen i chi ymadael ar unrhyw adeg, gwnewch hynny'n dawel.**

Mae'r Pwyllgor yn debygol o gael egwyl i ginio **oddeutu 1:00yp**. Nid yw cinio'n cael ei ddarparu i arsylwyr.

- Gallai'r Pwyllgor ofyn i'r cyhoedd a'r wasg ymadael ar unrhyw adeg.

Gofynnir i chi ymadael os bydd angen i'r Pwyllgor glywed rhesymau'r athro ysgol neu'r Corff Priodol dros ddymuno i ran o'r gwrandawriad neu'r gwrandawriad cyfan fod yn breifat.

- **Cofiwch y bydd y gwrandawriad yn peri straen yn aml i'r rheiny sy'n gysylltiedig ag ef.**

### Yr athro ysgol, y Corff Priodol ac unrhyw dystion

- Gall yr athro ysgol benderfynu peidio â mynychu'r gwrandawriad. Fel arall, gallai benderfynu dod gyda swyddog undeb neu gyfreithiwr, neu ar ei ben ei hun. Gall cynrychiolwyr y Corff Priodol hefyd benderfynu peidio â mynychu'r gwrandawriad.
- Os yw'r partïon hyn yn mynychu, nid oes rhaid iddynt roi tystiolaeth.
- Gofynnir i dystion, gan gynnwys yr athro ysgol, os yw'n briodol, dyngu llw neu gadarnhau cyn rhoi tystiolaeth.
- Gallai gwrandawriadau fod yn Gymraeg os yw'r athro ysgol yn gofyn am hynny. Bydd gwasanaethau cyfieithu'n cael eu darparu gan y Cyngor os dyma'r achos.
- Gall dystion hefyd roi eu tystiolaeth yn Gymraeg.

### Gwybodaeth arall

- Mae trefn ystafell y gwrandawriad wedi'i hatodi er gwybodaeth.
- Caiff gwrandawriadau eu recordio.

- Gwaherddir defnyddio ffonau symudol yn ystod y gwrandawriad.
- Gwaherddir aelodau'r wasg rhag tynnu lluniau yn lleoliad y gwrandawriad.

#### Cysylltiadau allweddol

**Cyfeiriad**      **Y Tîm Priodoldeb i Ymarfer**, Cyngor y Gweithlu Addysg, 9fed Llawr, Eastgate House, 35-43 Ffordd Casnewydd, Caerdydd, CF24 0AB


**Ffôn**            029 2046 0099

**Rhif Ffacs**     029 2047 5850


**E-bost**          priodoldebymarfer@cga.cymru

## Ystafell y Gwrandawriad


(Pwyllgor Apeliadau Sefydlu - gwrandawriad llafar)




Pwyllgor  
Apeliadau  
Sefydlu  
**Aelod**




Pwyllgor  
Apeliadau  
Sefydlu  
**Cadeirydd**



**Ymgynghor-**  
**ydd**  
**cyfreithiol y**  
**Cyngor**




Pwyllgor  
Apeliadau  
Sefydlu  
**Aelod**




**Standin y**  
**tyst/apelyd**  
**d**


**Swyddog**  
**(ion)/**  
**Clercod**  
**Apeliadau**  
**Sefydlu**  
**(Cyngor)**




**Corff Priodol**  
**cynrychiolydd**




**Corff Priodol**  
**cynrychiolydd**



**Cynrychiolydd**  
**yr Apelydd**



**Apelydd**



Arsylwyr

